| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **23 MAI 2024** |
| TEITL: | **CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2024-2034** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno gwybodaeth am y broses o sefydlu Cynllun Rheoli Asedau 2024-2034** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried y Cynllun Rheoli Asedau yn ei gyfarfod ar Mehefin 11eg** |
| AELOD CABINET: | **Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR** |

**1.** Yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig, cyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar 4 Gorffennaf, i sefydlu ein Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod 2024-2034.

**2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb y broses o sefydlu a blaenoriaethu y Cynllun Rheoli Asedau, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

**3.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar gynnwys y Cynllun Asedau, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

**4.** Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud penderfyniad ar y Cynllun Asedau a chynnig eu hargymhelliad i'r Cyngor Llawn.

**5.** Er enghraifft

- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o adnabod anghenion cyfalaf a nodir yn yr adroddiad yn rhesymol?
- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o flanoriaethu cynlluniau cyfalaf yn rhesymol?
- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y mesurau a ddefnyddiwyd i ddod a'r glorian yn wastad (paragraff 19 o'r adroddiad) yn rhesymol?
- Oes modd cael sicrwydd fod y cynlluniau a gynigir yn rhesymol ac yn diwallu anghenion pobl Gwynedd gorau y gellir o fewn yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael?
- Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?

**Atodiad:**
Cynllun Rheoli Asedau 2024 - 2034 (adroddiad Cabinet 11/06/2024)